# GLYNN ANGAU: 3.133

NEU,

## ALLWEDD MYFYRDOD

AR

DDYDD MARWOLAETH:

WEDI EI GOSOD ALLAN

# AR DDULL CAN.

---



---

1855.

## GLYNN ANGAU.

'Mofynwn bawb am Grist mewn undeb,
Cyn mynd oddi yma yma i drag'wyddoldeb,
Ni's gwyddom ddim pwy awr na munud,
Y byddwm yn y trag'wyddolfyd.

Llawer iawn mae angau diran,
Yn dorri lawr o bob rhyw oedran,
Mae e'n tramwy draw ac yma,
O dan commands y Duw Jehofa.

Braidd na chlywaf sŵn wylofain,
Dagrau'n llifo a rhai'n llefain,
Y fam yn gweddi gydâ galar,
O angau creulon beth wy'th fatar?

A leddi di fy maban gwirion,
Sydd yn sugno llaeth fy nwyfron,
Angau, angau aros dippyn,
Paid a lladd fy anwyl blentyn.

Beth wy'n hidio medd yr angau,
Ei fod yn sugno llaeth dy fronau,
Nid oes amser i mi oedi,
'Rwi dan gommands y brenin Iesu.

Fe dyr angau'r undeb nesaf,
Sydd rhwng y gwr a'r wraig anwylaf
Braidd na chlyaf y wraig yn llefâin,
Fel yn gweddi â llais gwylofain,

Gan ddywedyd, angau creulon,
A leddi di fy mhriod tirion,
O paid a bod mor ddidosturi,
A'r holl blant bychan heb ei magu.

(1381
X2a5 211355

Nid wyf fi medd angau i honno,
A thi wraig yn cydymdeimlo,
Ti ga'i alaru, ti ga'i wylo,
O'm rhan i nid wyf yn hidio.

'Mlaen a ngorchwyl âf medd angau,
Am hyny 'nawr partoa dithau,
F'allau foru daw dy ddiwrnod,
Ymbar'toa a bydd yn barod.

F'allai'r fam yn gorfod myned,
A gadel 'nol eu phlant ymddifaid,
A'r baban bach fydd yno'n gweiddi,
Ar dorri'i galon am ei fami.

Y mae'r angau yn ddiarbed,
Yn gwa'nu rhwng y corph a'r enaid,
Chwi ie'ngctid glân sydd yn eich blodau,
Er tecced heddyw yw eich gruddiau.

Yn fuan bydd eich traed yn oerllyd,
Fe fydd eich dwylaw'n methu syflyd,
Fe fydd eich gwaed yn dechreu rhewi,
Yn mhob gwythien bydd yn oeri.

Llinynau eich llygaid fydd yn torri,
A'ch tafod ffraeth a fydd yn tewi,
A'ch cyfeillion hefyd yn troi cefnau,
A'r enaid bach yn myn'd i siwrnau,

Ac oes heb undeb bydd â'r Iesu,
Pa fodd gwna'r enaid y pryd hynny,
Ië, a'th ail-eni fydd yn swcwr,
Heddwch Duw trwy waed Cyfryngwr.

Cyfiawnder Crist a'r wisg briodas,
Am dy enaid cofia'n addas,
Calon sanctaidd sydd yn eisiau,
Ac edifeirwch am bob beiau.

Onid ê fe â dros greigiau dystryw,
Gyda'r lliferiant y môr marw,
Ti golli'th gyfoeth a'th lawenydd
A bhob trugaredd yn dragywydd:

Y mae angau yn ddychrynllyd,
I'r annwiol pan ddel i'w symmud,
Cofio'r amser gam-ddefnyddiwyd,
Gwaed ac aberth Crist a sathrwyd.

Mae marw yn elw mawr i'r duwiol.
Rhyddhau oddiwrth bob trafferth bydol,
Oddiwrth bob ofnau ac amheuon,
Cystydd, tlodi, a phob trallodion.

Fe gaiff ei enaid ef yn angau,
Fyn'd i gyfeillach y glân seintiau,
A chyfeillach yr angylion,
I foli Iesu, Brenin Seion,

Dyma gyfeillach lawn o undeb,
A chariad pur i drag'wyoldeb,
Pob rhyw alar wedi darfod,
Pob afiechyd pob rhyw bechod,

Telynau aur fydd yn ei dwylo,
Yn moli'r Oen fu yn congerwo,
Hwy gyd-gordiant Halewia,
Am eu golchi yn ngwaed Calfaria.

'Mofynwn ninau bechaduriaid,
'Nawr mewn pryd am arch i'r enaid,
Cyn y delo hirnos angau,
Pan yn fudan fo'n tafodau.

*DIWEDD.*